# Tribiwnlys Addysg Cymru

# Adroddiad Blynyddol
# Medi 2024 – Mawrth 2025

Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom Ni | 5 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Ein Cwsmeriaid | 22 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 23 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52907, ISBN digidol 978-1-80633-377-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

## Croeso

Fel imi egluro yn ein Hadroddiad Blynyddol 2023 – 2024, mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn newid y cyfnod adrodd, o flwyddyn academaidd i flwyddyn ariannol, er mwyn bod yn gyson ag adroddiadau Tribiwnlysoedd datganoledig eraill yng Nghymru. Felly, mae hwn yn adroddiad byr sy'n cwmpasu'r chwe mis diwethaf er mwyn inni allu gwneud y newid hwn.

Mae apeliadau yn erbyn penderfyniadau Awdurdodau Lleol a wnaed o dan fframwaith cyfreithiol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau i gynyddu o'u cymharu â'r nifer gyfunol o apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/ADY a wnaed yr adeg hon y llynedd.

Nid oes gan Dribiwnlys Addysg Cymru apeliadau AAA wedi'u cofrestru ar hyn o bryd, ac ni fydd bellach yn adrodd ystadegau ar apeliadau o dan y ddeddfwriaeth flaenorol o'r flwyddyn nesaf.

Yr hyn sy'n destun pryder bellach yw'r oedi, o'i gymharu â'r fframwaith deddfwriaethol blaenorol, i gyhoeddi penderfyniadau ynghylch lleoedd ysgol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n symud i gyfnod newydd o'u haddysg yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r ffaith bod y penderfyniadau hyn bellach yn cael eu cyhoeddi ar Ddiwrnod Cenedlaethol Cynigion Ysgolion yn unig (eleni 03/03/2025 ar gyfer disgyblion Uwchradd a 16/04/2025 ar gyfer disgyblion Cynradd) yn golygu bod apeliadau i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniadau hynny yn cael eu gwneud yn ddiweddarach, a bydd llai o benderfyniadau yn gallu cael eu gwneud gan Dribiwnlys Addysg Cymru cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Rydym wedi cael nifer cyfyngedig iawn o apeliadau ynglŷn â lleoedd addysg i bobl ifanc sy'n symud i Addysg Bellach o'r Ysgol Uwchradd. Mae ymholiadau i'r Tribiwnlys gan rieni a'r bobl ifanc hynny sy'n pontio ac sydd wedi cael Datganiad AAA o'r blaen yn adlewyrchu'r dryswch cyffredinol ynghylch pwy sy'n gwneud penderfyniad a phryd y mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â'u ADY. Yn aml nid yw penderfyniad wedi'i wneud gan eu hawdurdod lleol cyfrifol, ac felly nid oes hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

Mae'n peri pryder nad yw'r Tribiwnlys wedi cael unrhyw apeliadau ar ran plant sy'n derbyn gofal neu blant/pobl ifanc a gedwir yn gaeth o dan ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl neu Gyfiawnder Troseddol.

Mae gennym gwestiynau ynghylch a oes cyngor a chynrychiolaeth ddigonol ar gael i blant, pobl ifanc a chyfeillion achos o dan y trefniadau presennol a roddwyd ar waith gan yr awdurdodau lleol. Mae gennym gwestiynau hefyd ynghylch diffyg system fonitro i sicrhau ansawdd ac argaeledd gwasanaethau o'r fath.

Mae nifer yr hawliadau a wnaed o wahaniaethu ar sail anabledd yn yr ysgol wedi parhau ar yr un lefel.

Cynhaliwyd cyfres o Fforymau Defnyddwyr Tribiwnlys Addysg Cymru ym mis Mai 2025 ar lein, ac yna wyneb yn wyneb yng Nghaernarfon. Fel arfer, roedd yn hynod ddefnyddiol clywed yn uniongyrchol am brofiad yr holl ddefnyddwyr sy'n dod i'r Tribiwnlys a thrafod ffordd newydd bosibl o sicrhau y gellir manteisio ar system cyfiawnder yn hawdd.

Bydd Canllawiau Llywyddol newydd yn cael eu cyhoeddi dros yr haf yn egluro'r hyn a ddisgwylir i'w gynnwys mewn casgliadau o dystiolaeth.

Rwyf wedi cwblhau fy adolygiad o’r dystiolaeth o apeliadau a wnaed i’r Tribiwnlys o dan Ddeddfwriaeth ADY ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref ar wefan Tribiwnlys Addysg Cymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac mae hynny wrth wraidd yr hyn rydyn ni’n ei wneud.

**Y Barnwr Jane McConnell**
Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Y sail ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)
- Swyddogaeth TAC
- Rheoliadau TAC
- Proses TAC
- Aelodau TAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAC
- Defnyddio TAAAC

## Y sail ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn dribiwnlys annibynnol. Cafodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig blaenorol Cymru (TAAAC) ei sefydlu yn 2003 o dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Fe'i ailenwyd yn Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC) gan Adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae TAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAC a'i gymorth gweinyddol.

## Swyddogaeth TAC

Mae TAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhieni, plant a phobl ifanc sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r awdurdod lleol (ALl) neu'r Sefydliad Addysg Bellach wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn neu berson ifanc. Mae TAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

## Rheoliadau TAC

Mae TAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan TAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAC yn deall yn glir y camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010

## Proses TAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAC lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon i TAC.

Mewn gwrandawiad TAC mae'r panel yn cynnwys Barnwr sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd, neu o bell drwy Wrandawiad Rhithwir.

## Aelodau TAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Barnwyr. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel Addysg.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Barnwr** | Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan farnwr tribiwnlys, ac mae'n rhaid bod gan y barnwr gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Arbenigol o'r Panel** | Mae Aelodau Arbenigol o'r Panel yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd. |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos, ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon. |

Llywydd
Jane McConnell

Dirprwy Lywydd
Mark Allen

Barnwyr | Aelodau arbenigol

## Penodiadau

Penodwyd 0 Barnwr a 0 aelod arbenigol yn ystod y cyfnod adrodd.

## Hyfforddiant

Cynhaliodd y Tribiwnlys Gynhadledd Hyfforddi Flynyddol ar gyfer ei aelodau ym mis Tachwedd 2024.

## Cysylltu â TAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAC:

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad TAC:** | Tribiwnlys Addysg Cymru<br>Blwch SP 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW |
| **Llinell Gymorth TAC:** | 03000 259800 |
| **E-bost TAC:** | tribiwnlysaddysg@llyw.cymru |

## Defnyddio TAC

Mae TAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, ac os ydych am siarad eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu cyfieithydd. Os bydd angen dehonglwr iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Os oes gennych chi neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad unrhyw ofynion eraill o ran hygyrchedd neu fynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr/cyfieithwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y rheini sy'n mynd i'r gwrandawiad, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:


- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cwynion

## Niferoedd ac Ystadegau

Mae'r Tribiwnlys yn casglu'r data canlynol ar gyfer ystadegau:

| | |
|---|---|
| Apeliadau ADY ac AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw ym Medi 2024 – Mawrth 2025 | Siart 2.1 |
| Mathau o apeliadau ADY Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.2 |
| Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.3 |
| Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.4 |
| Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.5 |
| Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.6 |
| Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 | Siart 2.7 |
| Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.8 |
| Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.9 |
| Apeliadau ADY yn ôl canlyniad yn Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.10 |
| Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.11 |
| Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.12 |
| Hawliadau o wahaniaethu honedig ar sail anabledd a ddaeth i law ac a ryddhawyd Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys hawliadau a gafodd eu dwyn ymlaen) | Siart 2.13 |
| Mathau o hawliadau a ddaeth i law Medi 2024 – Mawrth 2025 | Tabl 2.14 |
| Hawliadau o wahaniaethu honedig ar sail anabledd yn ôl canlyniad Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys hawliadau a gafodd eu dwyn ymlaen) | Siart 2.15 |

### Siart 2.1: Apeliadau ADY ac AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw ym Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)



## Tabl 2.2: Mathau o apeliadau ADY Medi 2024 – Mawrth 2025

| Math o apêl | Nifer |
|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 12 |
| ALI i lunio a chynal CDU | 9 |
| Gwrthod newid CDU | 10 |
| Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | 13 |
| Rhoi’r Gorau i Gynnal | 4 |
| Gwrthod penderfynu | 4 |
| Angen | 1 |
| Darpariaeth | 6 |
| Ysgol | 7 |
| Angen a Darpariaeth | 5 |
| Angen ac Ysgol | 0 |
| Darpariaeth ac Ysgol | 7 |
| Angen, Darpariaeth ac Ysgol | 12 |
| **Cyfanswm** | **90** |

## Tabl 2.3: Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol Medi 2024 – Mawrth 2025

| | Nifer yr Apeliadau | Canran yr Apeliadau % |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 2% |
| Caerffili | 3 | 5% |
| Caerdydd | 8 | 14% |
| Sir Gaerfyrddin | 2 | 4% |
| Ceredigion | 0 | 0% |
| Conwy | 2 | 4% |
| Sir Ddinbych | 1 | 2% |
| Sir y Fflint | 2 | 4% |
| Gwynedd | 2 | 4% |
| Merthyr Tudful | 1 | 2% |
| Sir Fynwy | 1 | 2% |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0% |
| Casnewydd | 8 | 14% |
| Sir Benfro | 0 | 0% |
| Powys | 5 | 9% |
| Rhondda Cynon Taf | 4 | 7% |
| Abertawe | 1 | 2% |
| Torfaen | 2 | 4% |
| Bro Morgannwg | 9 | 15% |
| Wrecsam | 1 | 2% |
| Ynys Môn | 2 | 4% |
| **Cyfanswm** | **55** | **100%** |


## Tabl 2.4: Mathau o Apeliaau ADY yn ôl Awdurdod Lleol (Rhan 1) Medi 2024 – Mawrth 2025

| | A oes gan y plentyn ADY | ALl i lunio a chynal CDU | Gwrthod newid CDU | Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | Rhoi'r Gorau i Gynnal | Gwrthod penderfynu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 1 | 2 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Caerdydd | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 2 | 3 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Abertawe | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Bro Morgannwg | 2 | 0 | 3 | 3 | 1 | 0 |
| Wrecsam | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **12** | **9** | **10** | **13** | **4** | **4** |

## Tabl 2.5: Mathau o Apeliaau ADY yn ôl Awdurdod Lleol (Rhan 2) Medi 2024 – Mawrth 2025

| | Angen | Darpariaeth | Ysgol | Angen a Darpariaeth | Angen ac Ysgol | Darpariaeth ac Ysgol | Angen, Darpariaeth ac Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **6** | **7** | **5** | **0** | **7** | **12** |

## Siart 2.6: Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025



## Tabl 2.7: Mathau o Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol Medi 2024 – Mawrth 2025

| | Meithrinfa | Pontio Meithrin | Ysgol gynradd | Pontio Cynradd[1] | Ysgol uwchradd | Pontio Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 0 | 0 | 6 | 0 | 6 | 0 |
| ALI i lunio a chynal CDU | 0 | 0 | 6 | 0 | 3 | 0 |
| Gwrthod newid CDU | 1 | 0 | 5 | 0 | 4 | 0 |
| Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | 1 | 0 | 8 | 0 | 4 | 0 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Gwrthod penderfynu | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Yr angen yn y CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Y ddarpariaeth yn y CDU | 1 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 |
| Yr ysgol yn y CDU | 1 | 1 | 3 | 1 | 0 | 1 |
| Yr angen a'r ddarpariaeth yn y CDU | 0 | 0 | 2 | 0 | 3 | 0 |
| Yr angen a'r ysgol yn y CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU | 1 | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 |
| Angen, Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU | 2 | 0 | 4 | 0 | 5 | 1 |
| **Cyfanswm** | **7** | **1** | **42** | **1** | **37** | **2** |

1 Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd

### Tabl 2.8: Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 – i'w diweddaru

| | Nifer yr apeliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meithrinfa | Pontio Meithrin | Ysgol gynradd | Pontio Cynradd | Ysgol uwchradd | Pontio Uwchradd |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 6 | 0 | 2 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 1 | 1 | 3 | 1 | 2 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 3 | 0 | 1 | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 | 3 | 0 | 5 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **1** | **27** | **1** | **19** | **2** |

## Tabl 2.9: Apeliadau ADY yn ôl canlyniad Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Medi 2024 – Mawrth 2025 | |
|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Canran** |
| Cyn cofrestru | 4 | 4% |
| Gwrthod eu cofrestru | 2 | 2% |
| Wedi'u cadarnhau'n llawn | 21 | 20% |
| Wedi'u cadarnhau'n rhannol | 8 | 7% |
| Gorchymyn Cydsynio | 21 | 20% |
| Wedi'u gwrthod/dileu | 9 | 8% |
| Wedi'u tynnu'n ôl[2] | 8 | 7% |
| Ar y gweill | 34 | 32% |
| **Cyfanswm** | **107** | **100%** |

2 Wedi'u tynnu'n ôl – mae achos yn cael ei dynnu'n ôl pan nad yw'r ymgeisydd bellach yn dymuno parhau â'i apêl, gan gynnwys pan fyddant wedi dod i gytundeb âr ALl.
Cydsyniad – Mae apêl yn cael ei gwblhau trwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb llawn ac mae'r Barnwr yn cyhoeddi penderfyniad sy'n cadarnhau'r hyn sydd wedi'i gytuno. Mae'r penderfyniad hwn yn gyfreithiol rwymol.


## Tabl 2.10: Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a'r math o apêl Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Cyn cofrestru | Gwrthod eu cofrestru | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Gorchymyn Cydsynio | Wedi'u gwrthod/ wedi'u dileut | Tynnwyd yn ôl | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 0 | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 | 2 | 7 |
| ALI i lunio a chynal CDU | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 6 |
| Gwrthod newid CDU | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 3 | 1 | 7 |
| Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | 1 | 0 | 5 | 2 | 4 | 2 | 0 | 9 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| Gwrthod penderfynu | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Yr angen yn y CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Y ddarpariaeth yn y CDU | 1 | 0 | 3 | 1 | 4 | 1 | 0 | 1 |
| Yr ysgol yn y CDU | 1 | 0 | 6 | 0 | 6 | 0 | 1 | 8 |
| Yr angen a'r ddarpariaeth yn y CDU | 0 | 0 | 3 | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| Yr angen a'r ysgol yn y CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Angen, Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU | 2 | 0 | 3 | 4 | 5 | 3 | 2 | 10 |
| Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **5** | **2** | **30** | **11** | **28** | **15** | **11** | **60** |

## Tabl 2.11: Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol Medi 2024 – Mawrth 2025 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Cyn cofrestru | Gwrthod eu cofrestru | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Gorchymyn Cydsynio | Wedi'u gwrthod wedi'u dileu | Tynnwyd yn ôl | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Caerdydd | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 1 | 1 | 3 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 1 | 3 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 7 | 3 | 6 | 3 | 0 | 3 |
| Abertawe | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 2 | 2 | 6 | 1 | 0 | 6 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** | **2** | **21** | **8** | **21** | **9** | **8** | **34** |


### Siart 2.12: Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) Medi 2024 – Mawrth 2025




### Tabl 2.14: Y mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod Medi 2024 – Mawrth 2025

| Y math o hawliad | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Derbyniadau | 0 | 0% |
| Addysg | 8 | 58% |
| Gwaharddiadau | 3 | 21% |
| Derbyniadau ac Addysg | 0 | 0% |
| Derbyniadau a Gwaharddiadau | 0 | 0% |
| Addysg a Gwaharddiadau | 3 | 21% |
| Derbyniadau, Addysg a Gwaharddiadau | 0 | 0% |
| Heb eu cofnodi | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **14** | **100%** |

## Siart 2.13: Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad Medi 2024 – Mawrth 2025 gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen




## Data Gwrandawiadau

Yn ystod Medi 2024 i Fawrth 2025 cynhaliodd y Tribiwnlys 88 o wrandawiadau, ac o'r rheini roedd 32 yn Wrandawiadau Rheoli Achosion. O'r 56 gwrandawiad llawn, cynhaliwyd 53 fel gwrandawiadau rhithwir, cynhaliwyd 2 gwrandawiad wyneb yn wyneb a chynhaliwyd 1 gwrandawiad ar sail y papurau yn unig. Cynhaliwyd 2 wrandawiad llawn ac 1 gwrandawiad rheoli achos yn Gymraeg.

| Math | Nifer y diwrnodau |
|---|---|
| Apêl | 47 |
| Hawliad | 9 |

## Adolygiadau ac apeliadau a anfonwyd ymlaen

Gall partïon wneud ceisiadau am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. A gall partïon hefyd ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn credu bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed 9 cais am ganiatâd i apelio, gwrthodwyd 8, a rhoddwyd caniatâd yn rhannol i 1.

Daeth 1 cais am adolygiad i law yn ystod y cyfnod adrodd, ac fe'i gwrthodwyd.

## Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw.

# Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

## Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Rydym yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â chyfathrebu a'r gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys lefel y bodlonrwydd o ran lleoliad y gwrandawiad, y cymorth a roddir gan staff, a gwefan y tribiwnlys.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2025-2026

## Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2025-2026

Mae'n bwysig bod TAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Sicrhau y gall plant a phobl ifanc ag ADY ac Anableddau fanteisio ar y system cyfiawnder, a chyngor a chymorth, yn effeithiol
- Gwneud defnydd effeithiol o reoli achosion a datrys anghydfodau barnwrol
- Cyhoeddi Cyfarwyddydau Ymarfer i gynorthwyo partïon i baratoi ar gyfer gwrandawiadau
- Hyrwyddo gwybodaeth am yr hawl i apelio neu wneud hawliad gan blant sy'n derbyn Gofal a'r plant/pobl ifanc hynny a gedwir yn gaeth
- Cyflwyno Hyfforddiant gloywi Barnwrol sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu ar sail anabledd a chyfraith ADY
- Datblygu sgiliau barnwrol trwy fentora a hyfforddiant
- Darparu gwrandawiadau hyblyg yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â chais gan bartïon
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Fforwm Defnyddwyr ledled Cymru ac ar lein
- Diweddaru gwefan Tribiwnlys Addysg Cymru
- Cyhoeddi penderfyniadau Tribiwnlys Addysg Cymru a wneir o dan Gyfraith ADY, a darparu mynediad effeithiol atynt
- Adolygu gweinyddiaeth y tribiwnlys a'i brosesau i gyflawni penderfyniadau teg, cyfiawn ac amserol
- Paratoi at symud i unrhyw strwythur newydd a gyflwynwyd ar gyfer y Tribiwnlys yng Nghymru.